

## I ddod

- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 10fed yng Nghapel Llandegla am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2017-18. Arweinydd: Dafydd Watson. Croeso i bawb.
- **HAFAN** - Ychydig ddyddiau o ymlacio, cymdeithas a gweinidogaeth y Parch. Geraint Morse ym Mryn-y-Groes, Y Bala dydd Llun i fore Sadwrn, Mehefin 18fed – 23ain. £270 yn cynnwys lluniaeth llawn a thrip (£30 ychwanegol i warantu ystafell sengl). Mae modd archebu ar-lein trwy fynd i wefan [www.mudiad-efengylaidd.org/gwyliauhafan](http://www.mudiad-efengylaidd.org/gwyliauhafan) neu ffoniwch (01678) 520752 i gael ffurflen.
- **SUL Y FRO** dydd Sul, Mehefin 24ain – Bydd oedfa i'r teulu cyfan yn Llansannan am 10.30, a bydd mochyn wedi ei rostio a phwddin yng Nghae Chwarae Llansannan, ac amser i gymdeithasu a chwaraeon i'r teulu i ddilyn. (Os na fydd y tywydd yn caniatáu inni fod yn yr awyr agored, mae trefniadau wedi eu gwneud inni fynd i'r Ganolfan yn Llansannan.)  
**\*PWYSIG\*** Os ydych am aros i ginio, wnewch chi roi eich enw i Mair **erbyn dydd Sul, Mehefin 17eg**, os gwelwch yn dda? Pris y cinio: £5 i oedolion a £2 i blant ysgol gynradd.
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
  - ⇒ **Cwrs leuenticid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 30ain – Awst 3ydd
  - ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 13eg – 16eg
  - ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 18fed – 23ain*Cofiwch fod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.*

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536  
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

## Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw yn effeithiol ac yn gyfoes drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu a chyrraedd ein cymunedau.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Diarhebbion 16:1-3 (BCND tud.589 / BCN tud.538)



# Llais Bro Aled

## Dydd Sul, 10<sup>ed</sup> Mehefin 2018

Darlleniad y Dydd

Rhufeiniaid 6:22-23

(BCND tud.170 / BCN tud.155)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Ydych chi'n cofio'r teimlad diwrnod olaf ysgol cyn y gwyliau haf? Mae bron a bod yn annisgrifiadwy yn tydi! Does dim llawer o brofiadau tebyg mewn bywyd. Mae'r gwaith wedi mynd, mae'r llyfrau wedi cau, y pensiliau yn ôl yn eu cas am chwech wythnos. Dim mwy o wersi, gwaith cartref nac arholiadau. Mae fy atgofion i wastad o ddiwrnodau poeth, braf, lle roedd pawb yn eu crysau-t yn edrych ymlaen i fynd adre a rhoi'r hen wisg ysgol i gadw am sbel fach. Roedd pawb fel petae nhw'n cerdded ar gymylau am y diwrnod yna, i gyd yn gwybod fod dyddiau braf o ryddid ar eu ffordd. Teimlad o ryddhad enfawr oedd o!

Tybed, wrth i ni droi at adnodau heddiw, ydym ni yn, neu wedi cael teimlad tebyg? Meddyliwch am ychydig am eiriau rhyfeddol Paul yma. Oherwydd i Iesu ddod i'r byd, rydym ni'n cael ein derbyn i fywyd o wasanaethu Duw – yn RHYDD o afael pechod. Mae Iesu wedi prynu rhyddid i ni hefo'i fywyd. Mae Duw yn rhoi bywyd tragwyddol yn rhad ac am ddim i ni. Dyna i chi newyddion anhygoel! Nid yn unig rydyn ni'n cael ein rhyddhau yn y bywyd yma i fyw yn lân yn gwasanaethu Duw, ond mae o hefyd wedi rhoi bywyd tragwyddol i ni!

Mae darllen yr adnodau yma weithiau yn rhoi'r un teimlad o ryddhad llwyr ag yr ydw i'n gofio o ddiwrnod olaf ysgol. Wrth roi ein bywyd yng ngofal Iesu Grist, mae Duw yn ein rhyddhau ni o afael pechod ac o'n heuogrydd ni yn llwyr.

Wrth i ni ddod at ein gilydd heddiw, beth am gofio am y rhyddid yma mae Duw wedi ei ennill i ni? Dewch i ni i gyd roi ein beiau a'n beichiau wrth draed Iesu Grist a gofyn y bydd o'n ein rhyddhau ni o afael pechod. Wrth wneud hyn, gallwn fyw ein bywyd wedi cael maddeuant, ac yn gwbl rydd i wasanaethu Duw allan o ddiolchgarwch a chariad.

**DILYNWCH NI:** @eglwysibroaled

*Gwion*

## Pwyntiau Gweddi

- ⇒ Gweddi dros genhadon sy'n cyflwyno'r Efengyl ar draws y byd a diolch am genhadon y gorffennol
- ⇒ Gweddio am ddoethineb i arweinwyr gwleidyddol mewn cyfnod dyrys (1 Timotheus 2:2)



## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Celfyn Williams yn pregethu.
- Mercher – 13<sup>eg</sup> ➤ **Torri Syched y dynion** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
- **Torri Syched y merched** – seiat am 7.30 (*Ileoliad i'w drefnu*).
- Iau – 14<sup>eg</sup> ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 7.00. Cyn delio â'r materion gwaith, byddwn yn croesawu y Parch. Mererid Mair Williams a'i phriod Richard i sôn am Apêl Madagascar yr Undeb a lansiwyd yn ystod cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Aberaeron.
- Gwen – Sad  
15<sup>fed</sup> – 16<sup>eg</sup> ➤ **'Disglair'** – Penwythnos i ferched o bob oed yn y Bala. Siaradwyr: Sian Wyn Rees, Cath Woolridge ac Ali Roberts. Cofrestrwch ar-lein ar wefan [colegybala.org](http://colegybala.org) neu cysylltwch â'r Coleg i dderbyn copi papur o'r ffurflen: 01678 520565 / [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk).
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais gudd er mwyn ethol blaenoriaid newydd. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 12<sup>fed</sup> ➤ Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 2.00 a chynhelir Ysgol Sul yno am 10.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 13<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **HEDDIW (10<sup>fed</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Rhaghysbys ➤ Bydd y criw 'Paned a Sgwrs' yn ymweld â gardd Pont y Tŵr dydd Mawrth, Mehefin 19fed. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Sian Fferwd (870230). Enwau i Sian **erbyn dydd Sul (17eg)**, os gwelwch yn dda.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 ac yn dilyn y gwasanaeth, byddwn yn mynd ar daith i Ganolfan Santes Melangell, Pennant Melangell, Llangynog (SY10 0HQ). Bwriedir teithio mewn ceir a mynd am ginio i'r Plough Country Inn, Llangynog, cyn ymuno yn y gwasanaeth yng Nghanolfan Santes Melangell am 3.00 y prynhawn. Bydd cyfle i fynd oddi amgylch y Ganolfan wedi hynny.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yna mae cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno i fynd gyda chyfeillion Henllan ar eu taith i Ganolfan Santes Melangell (*gweler uchod*).
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.
- Gwener – 15<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **HEDDIW (10<sup>fed</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00, ac am 11.00 yn dilyn yr Ysgol Sul, mae gwahoddiad i holl aelodau Cefn Berain i drafod gwasanaethau y Sul i'r dyfodol.